Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF
01766 832 398 clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# AGENDA Cyfarfod Arferol

● 7pm – 13 Hydref 2025 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein

---

## Siambr y Cyngor ac Ar-lein

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/89531119615?pwd=sfm03PFK57Zy6hBOIlhRbOK2Q7JgYC.1

**Meeting ID: 895 3111 9615**
**Passcode: 351120**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 10 TACHWEDD 2025 AM 7.00PM**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3.** | | **Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.** <u>Dalier Sylw:</u> **trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw ddiweddariad gan yr Heddlu. |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **6.** | | **Cyflwyniad ynglŷn â Chronfa Llyn Du Bach**<br>I dderbyn cyflwyniad dros Zoom ynglŷn â gwaith sydd i'w wneud i'r grofna; gweler ebost ynghlwm. |
| **7.** | | **Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br>Derbyn ac ystyried y cofnodion canlynol:<br>i. Cofnodion Cyngor Arferol – 13 Hydref 2025, copi ynghlwm.<br>ii. Argymhellion Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio – 20 Hydref 2025, copi ynghlwm.<br>iii. Argymhellion Pwyllgor Mwynderau – 20 Hydref 2025, copi ynghlwm |

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | | **Ystyried Gwaharddiadau – Ardal Tan y Manod**<br>Ystyried yr ebost canlynol a dderbyniwyd:<br><br>*29 Hydref 2025*<br>*Andrew Roy Gregson*<br>*You*<br>*Robert Glyn Daniels (CYNG/COUN)*<br>Bore da,<br><br>Parthed: **Cais am waharddau parcio – Tan y Manod, Blaenau Ffestiniog**<br><br>Yn ddiweddar cafwyd ymweliad safle gynhyrchiol iawn rhwng Cynghorydd Glyn Daniels a minnau ynglŷn â'r honiad o bryder parcio ddiystyred ar ffordd Tan y Manod, Blaenau Ffestiniog. Gwelwch wedi ei atodi cynllun arfaethedig am waharddau parcio yn y lleoliad perthnasol. A fyddech cystal ag ychwanegu'r eitemau hyn i agenda eich cyfarfod Cyngor Cymuned nesaf i'w drafod os gwelwch yn dda ac yna dod i benderfyniad fel cyngor i un ai fod yn gefnogol i'r cais neu ei wrthwynebu. Os oes yna opsiynau eraill i'w gysidro byddwn yn hapus i'w derbyn.<br><br>Mae'n hanfodol i chi drafod y pwyntiau canlynol cyn dod i'ch penderfyniad ogydd:<br><br>• Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae rhaid rhoi rhesymeg gyfreithiol gadarn i berwyl hyn).<br>• A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus.<br>• A yw'r gwaharddau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.<br>• Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrwyr.<br>• Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal.<br><br>Gobeithio bod yr uchod yn eich cyfarwyddo a dewch yn ôl ataf os oes gennych gwestiynau pellach. Byddwn yn gwerthfawrogi os gallwch gydnabod derbyn yr e-bost hwn a'ch penderfyniad ar y cynnig yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Diolch,<br><br>*Andrew Gregson* |
| **9.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>Ystyried y ceisiadau Cynllunio canlynol:<br><br>i. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>Rhif Cais: C25/0763/03/DT<br>Lleoliad: Summerville, 89 Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3DW<br>Bwriad: Estyniad deulawr i gefn yr eiddo.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=36704&language=cy<br><br>ii. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>Rhif Cais: C25/0480/03/LL |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lleoliad: Clwb Rygbi Bro Ffestiniog Ystâd Ddiwydiannol Llwyn Gell, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NE<br>Bwriad: 6 llifoleuadau.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=36675&language=cy |
| **10.** | | **Rhestr Taliadau**<br>Cymeradwyo rhestr o daliadau wedi/i'w gwneud a derbyniadau yn ystod mis Medi ac Awst 2025, copi ynghlwm. |
| **11.** | | **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**<br>Ystyried y ceisiadau canlynol:<br><br>i. Clwb Pêl Droed Amaturiaid Amaturiaid y Blaenau – copi o'r ffurflen gais ynghlwm; aros am wybodaeth ariannol bellach<br>ii. Ambiwlans Awyr – copi PDF o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ynghlwm. Mae'n ddogfen 91 o dudalennau, felly ni ellir gwneud copi caled.<br>iii. Dawns i Bawb – adroddiad ariannol ynghlwm. Rydych wedi derbyn y ffurflen gais eisoes. |
| **12.** | | **Strategaeth Wastraff**<br>Ystyried y canlynol, a chyfle i ymateb i'r Arolwg:<br><br>**Arolwg ar Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd – Eich Cyfle i Ymateb**<br><br>Hoffem eich hysbysu bod yr arolwg cyhoeddus ar strategaeth wastraff newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi ei lansio. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r weledigaeth a'r camau gweithredu ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys cydweithio efo trigolion y sir a phartneriaid allweddol eraill er mwyn lleihau gwastraff, gwella ailgylchu ac hyrwyddo ailddefnyddio ac ehangu'r economi gylchol yn lleol.<br><br>Rydym yn awyddus i sicrhau bod barn cymunedau lleol yn cael ei ystyried wrth lunio'r cynlluniau gweithredu. Fel cyngor cymuned/tref/dinas, mae gennych rôl allweddol wrth gynrychioli llais eich trigolion.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo'r arolwg ymhlith trigolion Gwynedd, ac yn falch o'ch cymorth i rannu'r cyfle i bobl yn eich ardal i ddweud eu dweud.<br><br>**Gwahoddiad i Ymateb i'r Holiadur**<br>Rydym yn annog eich cyngor i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r holiadur ar-lein, sydd ar gael yma:<br><br>I ddarllen y Strategaeth a chymryd rhan yn yr arolwg, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/arolwggwastraff**<br><br>Dyddiad cau ar gyfer ymateb: **30 Tachwedd 2025** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd eich adborth yn cyfrannu'n uniongyrchol at y broses o fireinio'r strategaeth a sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion ac uchelgeisiau lleol.<br><br>Diolch am eich sylw a'ch cyfraniad parhaus i wella ein cymunedau.<br><br>**Y Cynghorydd Craig ab Iago**<br>**Aelod Cabinet Amgylchedd**<br>**Cyngor Gwynedd** |
| **13.** | | **Prydles Caeau Chwarae Tanygrisiau a Phenybryn, Llan Ffestiniog**<br>Ystyried yr ebyst gan gyfreithwraig y Cyngor, copïau ynghlwm, a’r dogfennau sydd yn ymwneud â phrydlesi Caeau Chwarae Tanygrisiau a Phenybryn. |
| **14.** | | **Cadair Eisteddfod**<br>Ystyried cynnig gan Y Cynghorydd Peter Jones i brynu cadair Eisteddfod. |
| **15.** | | **Cynllun Bioamrywiaeth Sgwâr Oakeley**<br>Derbyn diweddariad ar y prosiect i wella bioamrywiaeth yn Sgwâr Oakeley. |
| **16.** | | **Adroddiadau gan Gynghorwyr**<br>Cyfle i’r cynghorwyr adrodd yn ôl ar unrhyw gyfarfodydd ac ati a fynychwyd ganddynt yn ystod y mis diwethaf. |
| **17.** | | **Ysgoloriaeth Patagonia**<br>Derbyn adroddiad gan Cadi Dafydd ar ei hymweliad â Phatagonia yn gynharach yn y flwyddyn, copi ynghlwm. |
| **18.** | | **Llwybr Llechi Eryri**<br>Ystyried yr ohebiaeth sydd ynghlwm. |

SE Graham Cameron.

Sioned Graham-Cameron
Clerc
DYDDIAD: 5ed o Dachwedd 2025